# Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy

## Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Llywio

## Canolfan Gymuned Trefor a Garth, Trefor

## 2.00 pm 11 Ebrill 2019

**Aelodau'n bresennol**

Howard Sutcliffe (HS) (Cadeirydd), David Shiel (DS), Paul Mitchel (PM) Huw Rees (HR), Sarah Jones (SJ), Allan Forrest (AF), Kate Thomson (KT), Sallyanne Hall (SH), Nicola Lewis-Smith (NLS), Fiona Gale (FG)
Anna Irwin (AI), Steve Grenter (SG), Ffion Roberts (FR)

**Ymddiheuriadau**

Liz Carding, Samantha Williams, Karen Weaver, J Richards, Clare Files, Del Roberts-Jones, John Roberts, Rhun Jones, Martin Howarth.

| | |
|---|---|
| **Croeso i aelodau newydd** | Cyflwynodd HS aelodau newydd i'r grŵp ers y cyfarfod diwethaf. Steve Grenter (SG) o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Fiona Gale (FG) Ffion Roberts (FR) sydd newydd ddechrau swydd gydag OPL. |
| **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2019** | Mae OPL bellach wedi derbyn y ddogfen ffurfiol sy'n rhoi caniatâd i'r prosiect ddechrau. Derbyniwyd hwn ar 22 Mawrth 2019.<br>Mae'r hawliad cyntaf i Gronfa Treftadaeth y Loteri wedi'i gwblhau'n foddhaol. Gofynnodd HR am gadarnhad o ddyddiad gorffen swyddogol y prosiect, a chadarnhawyd mai 4 o Dachwedd 2023 oedd hwn. |
| **Diweddariad am y Prosiect** | Rhannwyd copïau caled i bob aelod o'r grŵp o ddogfen ddiweddaraf OPL wedi'i chwyddo i faint A3 fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd i newid 'gwariant wedi'i ymrwymo' i 'gwariant hyd yma'.<br><br><u>**A1 Gwella'r olygfa - Pontcysyllte**</u><br>Rydym yn dal i ddisgwyl i'r contractwr gyflwyno dyfynbrisiau am lunio cynllun coetir manwl ar gyfer yr ardal.<br>Rhannodd AF fapiau mawr y Gofrestra Tir.<br><br><u>**A9 Wenffrwd**</u><br>Cytunwyd ar drafodaethau mynediad gyda pherchnogion tir cyfagos.<br>Cynhaliwyd gwaith tyllu arbrofol ac arolygon o'r topograffi ym Mawrth. Yn amodol ar gynllunio, dylid gweld cynnydd yn fuan.<br>**DIWEDDARIAD – Caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo 12 Ebrill 2019.** |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Ymddiriedolaeth Adar Gwyllt a Gwlyptiroedd wedi ymweld â'r safle ac maent yn ychwanegu at y cynllun dehongli i gynnwys Wenffrwd. Roeddent yn frwd iawn ynglŷn â'r safle.<br>Rhywbryd yn y dyfodol trefnir bod y Grŵp Llywio'n ymweld â'r safle hwn.<br>**A11- Camlas yr Afon / Rheoli Mynediad**<br>Mae astudiaeth ail-gyflunio maes parcio Maes Llantysilio yn cael ei ariannu gan Gadwyn Clwyd. Bydd Bronwen Thomas, sydd newydd ei phenodi, yn gweithio ar sut y bydd yn edrych.<br>Mae problem erydu ym mharc Melin Lower Dee sy'n effeithio ar y defnydd o'r parc. Sicrhawyd £9K ac mae dyluniad ar y gweill fydd hefyd yn ystyried risg llifogydd ar gyfer y parc.<br>**B2 Llwybr Clincer**<br>Cwblhawyd Llwybr Clincer am nawr. Cynhaliwyd sesiwn lwyddiannus yn casglu sbwriel gyda Cadwch Cymru'n Daclus ac mae'r trigolion yn defnyddio'r llwybr. Cynhaliwyd y cyfarfod yma heddiw i'r grŵp allu gweld Llwybr Clincer. Llongyfarchodd HS dîm OPL am ddatrys dyhead hir y gymuned i gael llwybr o'r Ganolfan Gymunedol i'r gamlas.<br>**B3 Rhaeadr y Bedol**<br>Cwblhawyd arolwg. Mae CRT yn y broses o gynhyrchu model 3D o'r cysyniad. Bydd NLS yn diweddaru'r grŵp pan fydd y model hwn ar gael i'w weld.<br>**Dehongliad B4**<br>Comisiynwyd dyluniadau ar gyfer cylchigau Basn Trefor fydd yn arwain o faes parcio'r Basn at y Bont Ddŵr, er mwyn 'cysylltu' â'r ymwelwyr. Rhannwyd copïau o'r dyluniadau cychwynnol.<br>Cynhaliwyd trafodaeth o'r nodwedd polyn Totem.<br>Dewiswyd darluniau David Goodman ar gyfer brandio OPL. Dangoswyd baner gydag un o'r darluniau yn ystod cyfarfod y grŵp. Mae Sheila Dee o Bartneriaeth Rheilffordd Caer ac Amwythig yn awyddus i gynnal y ddelwedd hon ar gyfer datblygu gorsafoedd rheilffordd Rhiwabon a'r Waun.<br>**Llwybrau Digidol – (ibeacon)**<br>Mae OPL yn cyfrannu arian tuag at set o lwybrau digidol. Mae SH yn gweithio gyda David Crane o Amgueddfa Llangollen ac yn chwilio am luniau ddoe a heddiw ar gyfer rhannau penodol o'r llwybr.<br>**Taith mewn Balŵn Rithiol**<br>Nid yw'r cynllun prosiect gwreiddiol yn bosibl ac mae cynlluniau eraill yn cael eu hystyried gan roi ystyriaeth i'r gyllideb ac amserlenni. Mae problemau gyda realiti rhithiol y mae angen eu hystyried. |
| **Cofrestr Risg** | Ystyriwyd risgiau'r prosiect yn eu tro. |
| **Diweddariad Ariannol** | Rhoddodd DS ddiweddariad ariannol ac adolygiad o'r bwlch ariannol ar gyfer y prosiect |
| **Digwyddiadau Dathlu 2019** | Mae'r digwyddiadau i ddathlu arysgrifiad Safle Treftadaeth Byd gan OPL yn ddigwyddiadau caeedig gan mwyaf ond mae eraill yn cynnwys grwpiau cymunedol lleol ac o bellach i ffwrdd. Mae'r rhain yn cynnwys.-<br>2 grŵp MIND yn cynhyrchu celf fosaig. |

| | |
|---|---|
| | Criw Celf – thema peirianneg a Safle Treftadaeth Byd y Gamlas.<br>Prosiect darlunio blwyddyn 9 Dinas Bran<br>Artist yn gweithio gyda dwy ysgol gynradd leol – celf wedi'i ailgylchu.<br>Prosiectau clybiau ieuenctid.<br>Ysgol Caer Drewyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo Eisteddfod Corwen.<br>Flachdorf, Techinquest a drama Thomas Telford<br>10 o bethau i'w gwneud yn Nyffryn Dyfrdwy, gwobrwyo pobl am chwilio drwy'r dyffryn.<br>Teithiau'r Gwanwyn yn y Glyn, Plas Newydd.<br>Mwynhau'r Gwyllt yn y Glyn, Plas Newydd. |
| **Unrhyw Fater Arall** | Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi nodi bod angen i Fonitro a Gwerthuso ganolbwyntio ar ddata ansoddol yn hytrach na meintiol. Mae tendr Monitro a Gwerthuso OPL wedi mynd allan. |
| **Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf** | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar:<br>**11 Gorffennaf 2019 ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr, 10am tan 12pm.**<br>Awgrymodd HS y dylid defnyddio lleoliadau cymunedol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Bydd KT a FR yn ceisio cydlynu'r lleoliad ag unrhyw waith prosiect. |
| | Daeth y cyfarfod i ben am at 15:45pm, ac aethpwyd â'r grŵp i weld Llwybr Clincer. |